

Crynodeb gweithredol

Sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebiadau digidol yn gweithio i bawb: Adolygiad Cyfathrebiadau Digidol Ofcom 2016

- 1.1 Mae'r adolygiad strategol hwn yn amlinellu sut bydd Ofcom yn mynd ati i reoleiddio marchnadoedd cyfathrebiadau dros y degawd nesaf. Mae'n egluro sut byddwn yn hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl a busnesau yn cael y gwasanaethau ffôn, band eang a symudol sydd eu hangen arnynt yn ystod y blynyddoedd nesaf, lle bynnag maent yn byw ac yn gweithio.

Y prif gynigion

Newid strategol i sicrhau buddsoddiad mawr mewn rhagor o ffibr: Byddwn yn helpu i greu mwy o ddewis i bobl ac i fusnesau, gan leihau dibyniaeth y wlad ar Openreach. Un newid strategol pwysig fydd hybu'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau 'ffibr i'r adeilad' newydd i gartrefi ac i fusnesau, fel dewis amgen i gynlluniau arloesol BT ar gyfer technolegau copr. Fel rhan o hyn, bydd yn rhaid i BT agor ei rwydwaith, gan ei gwneud yn haws i gystadleuwyr osod eu ceblau ffibr eu hunain ar hyd polion telegraff BT ac yn ei bibellau cebl tanddaearol.

Newid sylweddol mewn ansawdd gwasanaethau: Byddwn yn cyhoeddi data perfformiad ar ansawdd gwasanaeth pob cwmni, ac yn ceisio cyflwyno iawndal awtomatig i ddefnyddwyr a busnesau bach pan fydd pethau'n mynd o chwith. Yn ddiweddarach eleni, rydym yn bwriadu cyflwyno safonau sylfaenol llymach ar gyfer Openreach gan ddefnyddio dulliau gorfodi pendant a rhoi dirwyon am dangyflawni.

Diwygio Openreach: Rydym yn bwriadu diwygio'r ffordd mae Openreach yn cael ei lywodraethu, gan ei wneud yn fwy annibynnol ar BT. Yn y dyfodol, dylai Openreach gael ei reoli hyd braich oddi wrth Grŵp BT, a chael mwy o annibyniaeth i wneud ei benderfyniadau ei hun ynglŷn â chyllidebau, buddsoddi a strategaeth. Bydd yn rhaid i reolwyr Openreach gynnig yr un gwasanaeth i bob cwsmer cyfanwerthol, ac ymgynghori â nhw ar gynlluniau buddsoddi. Ceir mwy o annibyniaeth drwy gadw Openreach ar wahân (er enghraifft, Openreach yn dod yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Grŵp BT, gyda'i aelodau bwrdd a'i bwrpas ei hun). Mae gwahanu 'strwythurol' llawn yn dal yn opsiwn.

Yr hawl i gael band eang: Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan bob cartref a busnes bach yn y DU hawl gyffredinol i gael band eang boddhaol a fforddiadwy. Dylai hyn ddechrau ar 10 Mbit yr eiliad i bawb, ac yna cynyddu'n unol â galw cwsmeriaid dros amser. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth er mwyn cyflawni hyn. Byddwn hefyd yn ceisio gwella'r ddarpariaeth symudol drwy gynnwys rhwymedigaethau newydd ar weithredwyr sy'n gwneud cais am drwyddedau newydd ar gyfer sbectrwm (y tonnau awyr radio sy'n trawsyrru signal symudol) yn y dyfodol.

Rhoi'r grym i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau doeth: Byddwn yn rhoi grym dewis go iawn i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn fwy hygyrch ac yn haws ei deall. Byddwn yn parhau i'w gwneud yn haws newid gwasanaethau er mwyn gwneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn cael dewis go iawn.

Dadreoleiddio a symleiddio gan warchod defnyddwyr yr un pryd: Byddwn yn cymryd cam yn ôl oddi wrth reoleiddio os nad oes ei angen rhagor ar bobl a busnesau, gan gynnwys pan mae cystadleuaeth yn opsiwn go iawn. Ein nod pennaf yw gwella gwasanaethau cyfathrebiadau i bawb, nid rheoleiddio mwy.

Gweledigaeth Ofcom: sicrhau bod cyfathrebiadau digidol yn gweithio i bawb

- 1.2 Yn ystod y ddeng mlynedd nesaf, byddwn yn gweld newidiadau sylfaenol mewn rhwydweithiau ac mewn gwasanaethau – ac yn y ffordd y mae defnyddwyr a busnesau'n eu defnyddio. Yn sail i'n strategaeth mae gweledigaeth hirdymor ar gyfer ansawdd ac argaeledd cyfathrebiadau y mae defnyddwyr a busnesau yn y DU yn eu haeddu dros y degawd nesaf:
- bydd pawb yn y DU yn mwynhau gwasanaethau band eang cyflym a dibynadwy. Bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr a busnesau yn symud o fand eang 'cyflym iawn' i fand eang 'tra chyflym', yn fwyfwy seiliedig ar rwydweithiau'n cystadlu, a bydd y technolegau ffôn symudol diweddaraf yn cael eu cyflwyno ar draws y DU;
 - bydd y DU yn symud tuag at ddyfodol ffibr newydd, lle bydd rhwydweithiau cebl a 'ffibr i'r adeilad' cystadleuol ar gael yn eang i gartrefi ac i fusnesau. Wrth i fwy o ddefnyddwyr a busnesau allu dewis o fwy o rwydweithiau, bydd cystadleuaeth yn arwain at arloesi ac at brisiau fforddiadwy;
 - bydd pobl sydd heb ddewis o ddarparwyr, pobl sydd ddim yn cael gwasanaeth o lefel sylfaenol hyd yn oed (oherwydd eu hamgylchiadau cymdeithasol neu oherwydd lle maent yn byw), neu bobl sy'n ei chael yn anodd manteisio ar gynigion yn y farchnad, yn cael eu gwarchod drwy ymyriadau penodol effeithiol; a
 - bydd y DU yn flaenllaw drwy'r byd o ran argaeledd a chapasiti ei rhwydweithiau digidol.

Y farchnad cyfathrebiadau digidol heddiw

- 1.3 Mae'r tirlun cyfathrebu heddiw yn gwbl wahanol i'r un a adolygwyd gennym yn 2005. Mae cyflymder band eang wedi parhau i gynyddu¹. Erbyn hyn, gall y rhan fwyaf o gartrefi lwytho ffilm manylder uwch i lawr mewn munudau. Mae mwy o bobl nag erioed yn defnyddio ffonau clyfar a chyfrifiaduron tabled, ac mae cyflymder data dyfeisiau symudol wedi cynyddu'n aruthrol ar draws llawer iawn o'r wlad².
- 1.4 Fodd bynnag, mae gormod o bobl a busnesau – yn enwedig busnesau micro, bach a chanolog – heb gael budd o hyn. Nid yw 2.4 miliwn o gartrefi a busnesau bach (oddeutu 8% o bob eiddo yn y DU) yn gallu cael mynediad at gyflymder band eang boddhaol o 10 Mbit yr eiliad eto³.
- 1.5 Mae bwch digidol cyson rhwng y rheini sy'n gallu cael mynediad at y technolegau diweddaraf a'r rheini sydd ddim. Wrth i'r byd fynd fwyfwy ar-lein, mae perygl y bydd y rheini sydd ar ôl yn cael eu hallgau'n economaidd ac yn gymdeithasol. Rydym wedi

¹ Tan 2004, roedd gwasanaethau band eang, fel arfer, yn darparu hyd at 512 Kbit yr eiliad. Lansiwyd gwasanaeth band eang 'hyd at 1 Mbit yr eiliad' cyntaf BT yn 2004. Roedd cwmnïau cebl ar yr adeg honno'n cynnig cyflymder o hyd at 3 Mbit yr eiliad. Heddiw, mae Openreach yn cynnig cyflymder o hyd at 80 Mbit yr eiliad i'r rhan fwyaf o'i gwsmeriaid, ac mae gweithredwyr cebl yn cynnig hyd at 200 Mbit yr eiliad. Mae darparwyr ffibr i'r cartref llai yn cynnig gwasanaethau hyd at a dros 1 Gbit yr eiliad, neu fwy hyd yn oed.

² Yn 2005, roedd gwasanaethau 3G yn eu dyddiau cynnar. Heddiw, mae darpariaeth 4G gan bob gweithredwr yn cyrraedd 46% o eiddo.

³ Ofcom, [Cysylltu'r Gwledydd 2015](#), t.7.

gweld bod pobl sy'n cael eu gadael ar ôl fel arfer yn dlotach neu'n byw mewn amgylchiadau bregus⁴.

- 1.6 Mae llawer o bobl a busnesau yn dal i gael darpariaeth symudol wael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Er bod pob un o'r pedwar cwmni rhwydwaith symudol (O2, Three, Vodafone ac EE) yn ein galluogi i ffonio yn 99% o ardaloedd trefol, mae'r ganran yn gostwng i 72% mewn ardaloedd gwledig, 41% ar ffordd y DU, a 31% mewn adeiladau mewn ardaloedd gwledig⁵. Mae cwsmeriaid gwledig yn cael mwy o drafferth gwneud galwadau, ac maent yn llai bodlon â'u gwasanaethau na neb arall⁶.
- 1.7 Mae'r ddarpariaeth symudol a band eang cyflym iawn sefydlog yn is yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon nag yn y DU yn gyffredinol, ac mae hynny'n wir am y cyflymderau cyfartalog hefyd.
- 1.8 Er bod y DU yn cymharu'n ffafriol â gwledydd o faint tebyg yn Ewrop o ran argaeledd a phris, mae angen mwy o fuddsoddiad i sicrhau newid sylweddol yn y dechnoleg ac yn y cyflymderau sydd ar gael i ddefnyddwyr. Bydd newid o'r fath yn gwneud yn siŵr bod y DU yn parhau'n flaenllaw drwy'r byd ym maes cysylltedd digidol.
- 1.9 Pan mae gwasanaethau'n gweithio'n dda i bobl, mae eu lefelau bodlonrwydd yn dda. Fodd bynnag, wrth i ddisgwyliadau defnyddwyr gynyddu, mae gwasanaethau sylfaenol i gwsmeriaid ac ansawdd gwasanaethau'n wael yn aml iawn. Yn ôl y Sefydliad Gwasanaethau i Gwsmeriaid, mae'r diwydiant cyfathrebiadau ymysg y sectorau gwaethaf yn hyn o beth⁷. Y pryder mwyaf cyffredin a oedd yn cael ei fynegi yn y sylwadau am yr adolygiad hwn oedd gwasanaethau gwael gan y diwydiant drwyddo draw, a gan Openreach yn arbennig.

Sicrhau bod gwasanaethau symudol a sefydlog ar gael i bawb yw'r man cychwyn ar gyfer canlyniadau da i bob unigolyn a busnes

Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod gan bob cartref a busnes bach yn y DU hawl gyffredinol i gael band eang boddhaol a fforddiadwy.

- 1.10 Yn yr un modd ag y mae gan bob dinesydd yn y DU hawl i gael gwasanaeth ffôn, cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2015 y bydd hawl newydd i gael band eang (neu 'Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol') yn berthnasol. Mae'r Llywodraeth wedi dweud mai ei huchelgais yw gwneud yn siŵr bod pob cartref a busnes bach yn y DU yn gallu mynnu band eang sydd â chyflymder o 10 Mbit yr eiliad o leiaf. Yn 2013, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth mai 10 Mbit yr eiliad yw'r cyflymder sydd ei angen i ateb gofynion cartref arferol o ran gwasanaethau digidol⁸.

⁴ Gweler, er enghraifft, waith ymchwil Ofcom sy'n dangos bod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran incwm mewn dinasoedd hefyd yn ardaloedd lle'r oedd band eang NGA ar gael leiaf (Ofcom, [Availability of Communications Services in UK Cities](#), t. 6) a bod cyfoeth y boblogaeth leol i bob golwg yn cyd-fynd â darpariaeth symudol da (Ofcom, [Economic Geography](#), t. 6).

⁵ Ibid, tt. 4 ac 11.

⁶ Ofcom, [Consumer Experiences of Mobile Phone Calls](#), tt. 10 ac 13-15; Ofcom, [Profiad y Defnyddiwr, 2015: Atodiad Ymchwil](#), t. 61.

⁷ Sefydliad Gwasanaethau i Gwsmeriaid, [UK Customer Satisfaction Index: The state of customer satisfaction in the UK](#).

⁸ Ofcom, [Adroddiad Seilwaith: diweddariad 2013](#), t.5 a 32.

- 1.11 Byddwn yn helpu'r Llywodraeth i roi hyn ar waith yn iawn. Byddwn hefyd yn ceisio gwneud yn siŵr bod modd cael cystadleuaeth i ddarparu'r Rhwymedigaeth, gyda'r dechnoleg briodol yn cael ei defnyddio ar gyfer amgylchiadau lleol. Gallai hyn gynnwys cyfuniad o dechnolegau sefydlog a di-wifr i gynnig y gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth band eang cyffredinol adeiladu ar rwydweithiau masnachol a chymunedol sydd eisoes yn bodoli hefyd, yn hytrach na'u disodli.
- 1.12 Gwyddom y bydd y galw am gysylltiadau cyflymach yn cynyddu yn y dyfodol. Mae'r cyflymderau a addawyd gan y Rhwymedigaeth yn rhwyd ddiogelwch ar gyfer defnydd heddiw. Fodd bynnag, bydd angen i'r Rhwymedigaeth band eang gynyddu dros amser, yn enwedig dros gyfnod o ddeng mlynedd. Fel arall, gallai'r bobl a'r busnesau bach sy'n dibynnu ar y Rhwymedigaeth gael eu gadael ar ôl eto o'u cymharu â'r rheini sy'n cael budd o wasanaethau masnachol newydd a rhai wedi'u huwchraddio.

Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael y wybodaeth orau bosib am ddarpariaeth symudol er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau doeth. Byddwn hefyd yn ceisio cynnwys rhwymedigaethau newydd mewn trwyddedau sbectrwm yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yng nghefn gwlad yn parhau i wella.

- 1.13 Dylai cynlluniau'r cwmnïau symudol sicrhau gwelliannau sylweddol mewn darpariaeth symudol, yn enwedig wrth gyflwyno 4G. Yn 2015, bu cynnydd yn darpariaeth y pedwar gweithredwr, o 37% i 46% o'r wlad, ac mae'r potensial yno i fynd gam ymhellach na chenedlaethau blaenorol o dechnoleg symudol.
- 1.14 Yn ogystal, rydym wedi rhoi rhwymedigaethau ar gwmnïau symudol i gynnig gwell darpariaeth. Fel un o amodau ei drwydded, mae'n rhaid i O2 gynnig darpariaeth 4G dan do i 98% o eiddo yn y DU (ac o leiaf 95% yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) erbyn diwedd 2017. Mae'r darparwyr rhwydwaith eraill yn gwneud yr un fath. Mae'r pedwar cwmni symudol wedi addo cynnig darpariaeth galwadau llais i 90% o arwyneb y DU.
- 1.15 Mae Ofcom yn bwriadu mynd gam ymhellach i wneud yn siŵr bod gwasanaethau symudol ar gael yn eang. Byddwn yn:
- cyhoeddi gwybodaeth drylwyr a hawdd ei darllen am ddarpariaeth⁹ er mwyn i ddefnyddwyr allu dewis pa ddarparwr yw'r un gorau iddyn nhw. Dylai hyn, yn ei dro, fod yn gymhellant i weithredwyr symudol wella'r ddarpariaeth;
 - asesu sut gallwn osod rhwymedigaethau newydd ar weithredwyr sy'n bidio am donnau awyr di-wifr ('sbectrwm') yn y dyfodol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r band sbectrwm 700 MHz yn arbennig o addas ar gyfer cynnig gwell darpariaeth. Bydd y band 700 MHz ar gael at ddefnydd symudol erbyn diwedd 2021 – neu hyd at ddwy flynedd cyn hynny o bosib. Rydym yn disgwyl arwerthu trwyddedau symudol ar gyfer y band ddiwedd 2018 neu 2019;
 - cefnogi camau'r Llywodraeth i leihau costau buddsoddi mewn rhwydweithiau symudol, drwy roi cyngor technegol. Mae hyn yn cynnwys mewn perthynas ag adolygiad y Llywodraeth o reolau ar gyfer codi mastiau symudol newydd, gan ei gwneud yn haws i weithredwyr wella'u darpariaeth; a

⁹ Mae mapiau sy'n dangos darpariaeth symudol ar gael yn maps.ofcom.org.uk.

- gwneud yn siŵr bod rheoliadau'n annog y farchnad i ddatblygu a chyflwyno technolegau arloesol fel y rheini a allai ddatrys problemau darpariaeth mewn adeiladau a cherbydau neu ar drenau.

Newid strategol i gyflwyno ffibr ar raddfa fawr

Byddwn yn sicrhau newid strategol i hybu'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau tra chyflym newydd ar raddfa fawr, gan gynnwys ffibr yn syth i gartrefi a busnesau, fel dewis amgen yn lle'r technolegau copr y mae BT yn eu cynllunio ar hyn o bryd.

Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis o wasanaethau band eang i bobl ac i fusnesau dros y degawd nesaf, gan helpu'r DU i fod yn llai dibynnol ar rwydwaith Openreach.

- 1.16 Gyda'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn gefn iddynt, bydd llawer o bobl a busnesau yn mynnu mwy o lawer gan eu rhwydweithiau cyfathrebu dros y degawd nesaf.
- 1.17 Nid oes modd darogan pa wasanaethau'n union fydd yn sbarduno'r galw hwnnw, ond mae profiadau'r ddeng mlynedd diwethaf yn awgrymu y bydd galw'n cynyddu'n aruthrol. Gellid ystyried datblygiad teledu ar alwad, er enghraifft. Daeth llawer o'r gwasanaethau hyn i amlygrwydd yn ystod y degawd diwethaf: lanswyd YouTube yn 2005 ac iPlayer y BBC ym mis Rhagfyr 2007. Y llynedd, defnyddiwyd gwasanaethau teledu ar alwad gan 74% o oedolion.
- 1.18 Mae angen i sector cyfathrebiadau'r DU gael buddsoddiad sylweddol i ddiwallu anghenion pobl a busnesau ac i osgoi cael ei adael ar ôl gan ein cystadleuwyr rhyngwladol.
- 1.19 Mae nifer o'r darparwyr mwyaf eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau i gyflwyno gwasanaethau cyflymder-uchel mewn rhannau penodol o'r wlad. Mae BT yn bwriadu cyflwyno technoleg 'G.Fast' i 10 miliwn o eiddo erbyn 2020, gan ddefnyddio band eang copr mewn ffordd arloesol. Mae Virgin Media yn ymestyn band eang cebl i bedair miliwn o eiddo newydd (o 45% o'r wlad i oddeutu 60%) erbyn 2020 drwy'r fenter 'Project Lightning'¹⁰.
- 1.20 Mae nifer o ddarparwyr llai hefyd yn defnyddio 'ffibr i'r adeilad' (FTTP); er enghraifft Hyperoptic, y mae ei rwydwaith yn cyrraedd 100,000 o eiddo yn y DU¹¹. Mae Sky, TalkTalk a CityFibre, gyda'i gilydd, yn treialu rhwydwaith ffibr newydd yn Efrog.
- 1.21 Bydd Ofcom yn adeiladu ar y cynnydd hwn. Byddwn yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr telegyfathrebiadau fuddsoddi mewn seilwaith datblygedig lle mae cystadleuaeth, gan wneud yn siŵr bod y rheini sydd eisoes wedi buddsoddi yn cael eu gwarchod. Byddwn yn ei gwneud yn bosib i gyflwyno rhwydweithiau ffibr ar raddfa fawr, gan gynnwys ffibr i'r adeilad, gan sicrhau newid sylweddol mewn gwasanaethau band eang i ddefnyddwyr ac i fusnesau. Bydd rhwydweithiau newydd yn cefnogi band eang 'tra chyflym', gan roi mwy o ddewis a gwasanaeth mwy dibynadwy i gwsmeriaid.

¹⁰ Virgin Media, [Prif ymateb DCR](#), t. 17.

¹¹ Hyperoptic, [datganiad i'r wasg, 11 Chwefror 2015](#).

- 1.22 Bydd buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr newydd yn creu ffordd arall o gynnig cysylltiadau o'r radd flaenaf i bobl ac i fusnesau, yn ogystal â'r cynlluniau arloesol ym maes technolegau copr syn cael eu cynllunio gan BT ar hyn o bryd, a'r gwelliannau datblygedig i rwydwaith cebl Virgin Media. Gyda'i gilydd, bydd buddsoddiadau newydd yn helpu i wneud yn siŵr bod y DU yn parhau'n arweinydd byd-eang o ran argaeledd a capasiti ei rhwydweithiau digidol.
- 1.23 Rydym yn bwriadu cyflawni'r newid hwn mewn strategaeth drwy wella mynediad at rwydwaith polion telegraff a phibellau (y tiwbiau sy'n cario ceblau telegyfathrebiadau o dan y ddaear) Openreach. O wneud hynny, bydd modd i gystadleuwyr gysylltu eu ceblau ffibr optig eu hunain yn uniongyrchol â chartrefi a busnesau am lai o gostau ymlaen llaw. Bydd angen cryn dipyn o welliannau o ran sut mae Openreach yn agor mynediad i'w seilwaith.
- 1.24 Mae'n rhaid i ddarparwyr sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd allu cynllunio ar gyfer defnyddio rhwydweithiau ffibr newydd. Bydd angen i Openreach gynnig systemau a phrosesau gwell o lawer i roi mynediad at ei bibellau a'i bolion. Byddwn yn gofyn i Openreach ddarparu cronfa ddata newydd sy'n dangos lleoliad a nodweddion ei bibellau a'i bolion. Byddwn yn gweithredu ac yn gorfodi'r newidiadau hyn, gan gynnwys drwy ein pwerau cystadleuaeth.
- 1.25 Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pob darparwr cyfathrebiadau sy'n adeiladu rhwydweithiau newydd yn cael cyfle teg i wneud elw ariannol sy'n adlewyrchu'r risgiau a'r costau a ddaeth i'w ran. Yn y gorffennol, os oedd elfen wirioneddol o risg yn gysylltiedig â buddsoddiad newydd, nid ydym wedi pennu prisiau penodol wedi'u rheoleiddio, ac nid yw hyn yn debygol o newid. Drwy wneud hyn, bydd angen i ni gymryd gofal i wneud yn siŵr nad yw'r prisiau'n cynyddu i ddefnyddwyr a busnesau, yn enwedig wrth i wasanaethau fynd yn rhai marchnad dorfol.
- 1.26 Mewn llefydd lle mae galw defnyddwyr yn arwain at fuddsoddiadau newydd, rydym yn dymuno gweld mwy nag un darparwr newydd yn ymuno â'r farchnad, i gystadlu'n uniongyrchol â BT a gweithredwyr rhwydwaith presennol fel Virgin Media. Gall y gystadleuaeth hon sicrhau llawer o fanteision i ddefnyddwyr drwy hybu arloesedd a defnydd o dechnoleg newydd, gwella ansawdd gwasanaethau, sicrhau prisiau fforddiadwy a gwneud y wlad yn llai dibynnol ar Openreach.
- 1.27 Mae hon yn strategaeth hirdymor: bydd y broses o agor mynediad at bibellau a pholion, fel bod y diwydiant yn eu mabwysiadu ac yn eu defnyddio i adeiladu rhwydweithiau newydd, yn dwyn ffrwyth dros amser. Mae'n anochel y bydd y math yma o fuddsoddiad yn fwy ymarferol mewn ardaloedd trefol â mwy o boblogaeth, ac mewn llefydd lle mae galw cryf am wasanaethau newydd.
- 1.28 Mewn llefydd lle nad yw'r sector preifat yn gallu cynnig buddsoddiad seilwaith sy'n cynnwys cystadleuaeth, bydd angen rheoliadau i wneud yn siŵr bod BT yn rhoi mynediad i'w ystod eang o gynnyrch 'gweithredol'. Mae'r cynnyrch hyn yn gadael i gystadleuwyr brynu capasiti ar rwydwaith BT er mwyn darparu gwasanaethau i bobl ac i fusnesau. Yna bydd modd i gystadleuwyr adeiladu ar y cynnyrch hyn i gynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr lle nad yw buddsoddiad rhwydwaith yn opsiwn pendant. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd cynaliadwy i gael cystadleuaeth ym mhob man. Mae'n fwyaf tebygol y bydd angen hyn mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.
- 1.29 Mewn achosion lle mae cystadleuaeth rhwydwaith yn gallu gweithio, mae posibilrwydd go iawn y gellir dileu'r rheoliadau sy'n bodoli.

Mewn gwasanaethau symudol, bydd cystadleuaeth yn hybu buddsoddi ac arloesi yn y rhwydwaith. Ond os bydd cystadleuaeth yn mynd yn aneffeithiol, gan gynnwys mewn achosion o gyfuno neu gymryd drosodd, rydym yn barod i gamu i mewn i atal niwed i ddefnyddwyr.

- 1.30 Ar hyn o bryd, mae'r diwydiant symudol byd-eang yn canolbwyntio ar ddatblygu'r safon dechnegol well nesaf ar gyfer rhwydweithiau symudol (a elwir yn 5G).
- 1.31 Rydym yn ffyddiog y buddsoddir mewn 5G os bydd y DU yn dal ati i ddwyn budd o gystadleuaeth go iawn rhwng y pedwar darparwr rhwydwaith cenedlaethol (Vodafone, EE, O2, Three), ac ystod eang o ailwerthwyr. O ganlyniad, gallai 5G fod ar gael yn y DU ymhell cyn 2025. Bydd Ofcom yn sicrhau bod y sbectrwm di-wifr angenrheidiol ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn.
- 1.32 Fodd bynnag, os bydd achosion o gyfuno neu gymryd drosodd yn arwain at lai o gwmnïau rhwydwaith mwy, mae'n bosib y bydd hynny'n risg i'r gystadleuaeth sydd yn y farchnad heddiw. Os yw defnyddwyr yn waeth eu byd o ganlyniad, efallai y bydd angen i ni ailystyried ein hagwedd at gystadleuaeth a'n buddsoddiad mewn gwasanaethau symudol o ddifri. Ni fyddwn yn oedi cyn camu i mewn os byddwn yn gweld bod defnyddwyr o dan anfantais.

Newid sylweddol mewn ansawdd gwasanaethau

Rydym yn bwriadu gosod safonau ansawdd gwasanaethau llymach i Openreach, cyhoeddi data perfformiad ar gyfer pob gweithredwr a sicrhau bod defnyddwyr a busnesau bach yn cael iawndal yn awtomatig os bydd pethau'n mynd o'i le.

- 1.33 Mae angen gwella ansawdd gwasanaethau ar unwaith. Byddwn yn rheoleiddio er mwyn gorfodi a chymell y diwydiant cyfan, gan gynnwys Openreach, i gyflwyno gwelliannau go iawn i ansawdd gwasanaethau.
- 1.34 Un o'r prif ffactorau sy'n llywio ansawdd gwasanaethau yw cystadleuaeth. Er mwyn i gystadleuaeth o ran ansawdd gwasanaethau fod yn effeithiol, mae angen i bobl ddeall sut mae gweithredwyr yn cymharu â'i gilydd. Felly byddwn yn cyhoeddi Adroddiad ar Ansawdd Gwasanaethau yn flynyddol, ac yn enwi'r perfformwyr gorau a'r perfformwyr gwaethaf – ymhlith gweithredwyr sefydlog a symudol – ar amrywiaeth o fesurau ansawdd.
- 1.35 Bydd gofynion llymach o ran ansawdd sylfaenol ar gyfer Openreach yn rhan ganolog o'n strategaeth, a byddwn yn eu gorfodi'n llym. Rydym yn bwriadu gosod lefel waelodol ar gyfer ansawdd gwasanaethau a fydd yn codi'n raddol dros amser, gan ystyried disgwyliadau defnyddwyr. Os na fydd Openreach yn bodloni'r safonau hyn, bydd yn cael dirwyon sylweddol. Pan fydd angen, byddwn yn sefydlu safonau sylfaenol mewn meysydd newydd – fel diffygion ac archebion anghyflawn – i gyd-fynd â'r gofynion presennol i wella amseroedd trwsio a gosod.
- 1.36 Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio ein proses rheoleiddio prisiau i sbarduno gwelliannau sylweddol o ran perfformiad, gan barhau i gosbi perfformiad nad yw'n cyrraedd y lefel waelodol ar gyfer gwasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu cymhellion cwmnïau mewn marchnad gystadleuol arferol i ddenu cwsmeriaid drwy osod eu hunain ar wahân drwy gynnig gwasanaeth o ansawdd eithriadol.

- 1.37 Yn olaf, byddwn yn ceisio sicrhau bod defnyddwyr a busnesau bach yn cael iawndal yn awtomatig os byddant yn colli gwasanaeth, neu'n cael llai o wasanaeth, am fod pethau wedi mynd o'i le. Bydd hyn yn gymhelliant sylweddol i ddarparwyr wella gwasanaethau a mynd i'r afael â diffygion yn gyflym.

Sicrhau bod Openreach yn fwy annibynol o lawr

Byddwn yn diwygio trefniadau llywodraethu Openreach ac yn sicrhau ei fod yn ddigon annibynnol i wneud ei benderfyniadau ei hun ar gyllidebau, buddsoddiadau a strategaethau.

Sut mae Openreach yn gweithio ar hyn o bryd

- 1.38 Cytunodd Ofcom â'r trefniant i 'wahanu swyddogaethau' BT yn 2005, mewn marchnad telegyfathrebiadau a oedd yn edrych yn bur wahanol i'r farchad heddiw. Yn sgil gwahanu swyddogaethau mae Openreach yn rhan o Grŵp BT, **ond mae ganddo rwymedigaethau i drin ei holl gwsmeriaid yr un fath.**
- 1.39 Rydym yn poeni nad yw'r model 'gwahanu swyddogaethau' presennol wedi gwneud digon i gael gwared ar y cymhelliant a'r gallu i wahaniaethu yn erbyn darparwyr sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Yn benodol:
- mae gan Grŵp BT ymreolaeth o hyd dros benderfyniadau strategol Openreach, a dros y gyllideb sy'n cael ei gwario ar y rhannau o'r rhwydwaith a ddefnyddir gan gystadleuwyr;
 - nid yw Grŵp BT yn ymgynghori digon â holl gwsmeriaid Openreach ar fuddsoddiadau newydd yn y rhwydwaith - fel G.Fast, technoleg band eang arfaethedig y genhedlaeth nesaf sydd, yn rhannol, yn defnyddio rhwydweithiau copr sydd eisoes yn bodoli ond a allai sicrhau cyflymder o 500 Mbit yr eiliad;
 - nid yw trefniadau llywodraethu Openreach yn ddigon annibynnol ar Grŵp BT; ac
 - nid oes gan Openreach allu ei hun – yn annibynnol ar BT – mewn meysydd fel ymchwil a datblygu.
- 1.40 Mae Grŵp BT yn gwmni sydd wedi'i 'integreiddio'n fertigol', lle mae'n brif ddarparwr gweithrediadau adwerthu a chyfanwerthu. Mae'r holl bryderon uchod yn deillio o ddiffyg annibyniaeth Openreach yn y strwythur hwn.
- 1.41 Rhaid i unrhyw ateb i bryderon sy'n deillio o'r strwythur integreiddio fertigol allu ystyried datblygiadau o ran y ffordd mae rhwydweithiau'n cael eu hadeiladu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Er enghraifft, petaem yn gweld bod BT yn gwahaniaethu o blaid EE – y mae newydd ei brynu – ar draul gweithredwyr rhwydweithiau symudol eraill, byddai'n rhaid i ni allu camu i mewn yn ôl yr angen i sicrhau chwarae teg i bawb.

Sut dylai Openreach weithio yn y dyfodol

- 1.42 O ystyried y pryderon hyn, dydy parhau â sefyllfa bresennol Openreach ddim yn opsiwn.
- 1.43 Felly, mae Ofcom wedi penderfynu bod rhaid diwygio'r berthynas rhwng Openreach a Grŵp BT i roi mwy o annibyniaeth a rheolaeth i Openreach er mwyn iddo allu

ymddwyn fel petai'n gwmni annibynnol. Dylai Openreach ymddwyn, a chael ei weld yn ymddwyn, fel cwmni annibynnol. O dan y strwythur newydd hwn, dylai fod gan Openreach:

- Strwythurau a phrosesau llywodraethu annibynnol, a chyfrifoldeb i wasanaethu'r holl gwsmeriaid cyfanwerthol yn gyfartal;
- Gallu gweithredol a thechnegol annibynnol. Dylai Openreach allu datblygu a rhoi cyngor ar opsiynau i uwchraddio'i rwydwaith, i wella perfformiad gweithredol ac i fodloni anghenion cwsmeriaid cyfanwerthol yn y dyfodol – heb droi at BT;
- Rheolaeth dros ei gyllideb, a'i benderfyniadau gweithredol a strategol;
- Cyfrifoldeb parhaus i drafod â'r holl gwsmeriaid yn yr un ffordd. Dylai hyn arwain at drafodaeth fwy dwyochrog rhwng Openreach a'i holl gwsmeriaid ar gynigion penodol, mewn modd nad yw'n ffafrio Grŵp BT; a
- Prosesau mwy agored o ran sut mae costau ac asedau'n cael eu dyrannu rhwng Openreach a gweddill BT. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw BT yn dyrannu ei gostau mewn modd sy'n arwain at godi prisiau gwasanaethau rheoledig yn artiffisial.

- 1.44 Un opsiwn a allai gyflawni'r nodau hyn yw 'gwahanu strwythurol': byddai'n rhaid i BT wneud Openreach yn gwmni ar wahân yn llwyr, gyda'i gyfranddalwyr ei hun. Mae hyn yn dal yn opsiwn posib. Byddai newid perchnogaeth yn cael gwared ar allu a chymhelliant BT i ddefnyddio ei ymreolaeth dros Openreach i wahaniaethu yn erbyn cystadleuwyr. Byddai hefyd yn lleihau'r gofyn am reoleiddio manwl i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â gwahaniaethu, ond byddai angen parhau i reoleiddio prisiau ac ansawdd, lle mae gan Openreach fonopoli o hyd. Hefyd, mae'n bosib na fyddai Openreach wedi'i strwythuro ar wahân yn wynebu mwy o gymhellion i fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd. Er hynny, mae'n bosib mai gwahanu strwythurol fyddai'r opsiwn glanaf a symlaf yn y tymor hir.
- 1.45 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai gwahanu strwythurol yn amharu'n sylweddol ar BT a'r diwydiant ehangach ac yn creu costau iddynt. Byddai heriau ymarferol, i Grŵp BT ac i reoleiddwyr. Mewn sector sy'n newid yn gyflym, byddai risgiau ynghlwm wrth sefydlu 'ffin' bendant ar gyfer Openreach. Mewn geiriau eraill, drwy rannu BT unwaith ac am byth byddai llai o hyblygrwydd i ailosod y ffin os byddai cystadleuaeth neu dechnolegau yn y dyfodol yn golygu ei bod yn briodol ei newid. Un o'r newidiadau posib hynny fyddai ailosod y ffin o amgylch rhwydwaith pibellau a pholion Openreach.
- 1.46 Felly, rydym hefyd yn ystyried opsiynau eraill a allai sicrhau annibyniaeth ac ymreolaeth bendant i Openreach sydd, ym marn Ofcom, yn angenrheidiol. Un o'r opsiynau hynny yw gwahanu cyfreithiol. Mae hyn yn golygu gwneud Openreach yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Grŵp BT, gyda'i ddibenion, ei fwrdd cyfarwyddwyr a'i drefniadau llywodraethu ei hun. Yn ogystal â hynny, gellir gosod gofynion pendant ar reolwyr Openreach i ystyried buddiannau'r holl gwsmeriaid – nid dim ond rhai BT – wrth wneud penderfyniadau.
- 1.47 Byddai problemau ymarferol i'w datrys, fel cysoni annibyniaeth gynyddol Openreach â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol a dyletswyddau cyfreithiol priif Fwrdd BT. Fodd bynnag, gallai fod yn gyfle i symleiddio'n sylweddol y rheolau a'r prosesau rheoleiddio presennol sydd ar waith i sicrhau nad yw BT yn cael ei drin yn ffafriol. Os

nad ydy'r trefniant i wahanu swyddogaethau BT yn gall cael ei gryfhau, rydym yn cadw'r hawl i wahanu'n strwythurol.

- 1.48 Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu cynigion manwl i sicrhau mwy o annibyniaeth ac awdurdod i Openreach a fydd o fudd i'r diwydiant telegyfathrebiadau cyfan ac i ddefnyddwyr mewn blynyddoedd i ddod. Byddwn yn datblygu cynigion i'w trafod â'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach eleni, sy'n gosod y fframwaith telegyfathrebiadau mae Ofcom a rheoleiddwyr eraill yn yr EU yn ei ddilyn wrth weithredu.
- 1.49 Yn ystod ein hadolygiad, cynigiodd BT ddiwygio'r berthynas rhwng Openreach a Grŵp BT er mwyn ceisio mynd i'r afael â'n pryderon. Fodd bynnag, yn ein barn ni nid yw'r cynigion arfaethedig hyn yn mynd yn ddigon pell. Er hynny, rydym yn agored i gynigion gwirfoddol sy'n rhoi sylw priodol i'r pryderon a nodwyd.

Grymuso ac amddiffyn defnyddwyr

Byddwn yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau doeth ac i newid darparwr, er mwyn iddynt allu manteisio ar y cynigion gorau sydd ar gael ar y farchnad.

- 1.50 Mae'r dewis o becynnau sydd ar gael i'w prynu yn mynd yn fwy a mwy amrywiol a chymhleth. Mae angen adnoddau a gwybodaeth ymarferol ar bobl er mwyn deall a manteisio ar yr hyn sydd ar gael. Mae gwahanol gynnyrch fel llinell ffôn, band eang a theledu yn cael eu gwerthu fwy a mwy fel bwndel. Wrth i BT brynu EE, dros y flwyddyn nesaf gallem weld ffonau symudol yn cael eu cynnig fwy a mwy i gwsmeriaid fel rhan o becyn 'pedwar gwasanaeth' fel mater o drefn.
- 1.51 Mae angen gwybodaeth glir a chywir ar ddefnyddwyr er mwyn cymharu'r hyn sydd ar gael a gwneud y penderfyniadau gorau. I sicrhau y bydd hynny'n digwydd, byddwn yn:
- Cyhoeddi gwybodaeth fanylach, gan gynnwys gwybodaeth am: ansawdd gwasanaethau ac ymateb i gwsmeriaid; argaeledd gwasanaethau symudol a sefydlog; a chyflymder band eang;
 - Gweithio i gyflwyno dull sylfaenol o gymharu costau, fel cost fisol gyfartalog elfennau craidd gwasanaeth dros gyfnod y contract, er mwyn i ddefnyddwyr allu cymharu gwahanol gynnyrch yn haws;
 - Monitro'n ofalus beth yw effaith cydymffurfiaeth darparwyr â rheolau'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ynghylch hysbysebu prisiau band eang;
 - Gweithio gyda thrydydd partiön, fel gwefannau cymharu prisiau, i wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr cyn prynu; ac yn
 - Canfod beth arall gellir ei wneud ar ran defnyddwyr sydd ddim yn ymateb i'r wybodaeth hon, er enghraifft mwy o gymhelliant i ystyried cynigion eraill pan fydd contractau'n dod i ben.
- 1.52 Rhaid i ddefnyddwyr allu gweithredu ar y wybodaeth hon drwy newid darparwr yn rhwydd er mwyn cael cynnig gwell. Rydym eisoes wedi sicrhau ei bod yn hawdd newid darparwr gyda chwmnïau sy'n gwerthu band eang gan ddefnyddio rhwydwaith Openreach. Cyn hir byddwn yn dilyn hynny gyda chynigion ar gyfer rheolau newydd

i'w gwneud yn haws i newid cwmni symudol. Byddwn hefyd yn cwblhau ein hadolygiad o newid bwndel tri gwasanaeth (h.y. llinell ffôn, teledu a band eang).

- 1.53 Byddwn yn gweld beth mwy gellir ei wneud i helpu defnyddwyr na fyddant yn ymateb i wybodaeth well neu newydd o bosib, neu i hwyluso'r broses newid darparwr. Mae pobl mewn amgylchiadau bregus yn achosi pryder penodol. Mae mesurau posib yn cynnwys mwy o gymhelliant i ystyried cynigion eraill pan fydd eu contract yn dod i ben. Byddwn hefyd yn cadw golwg ar brisiau yn fwy gofalus er mwyn gweld a yw defnyddwyr yn cael y cynigion gorau posib, ac a yw pobl hŷn neu bobl mewn sefyllfa fregus yn benodol yn cael cynigion sydd ddim cystal.
- 1.54 Fodd bynnag, rydym hefyd yn barod i gyflwyno mesurau amddiffyn penodol ac uniongyrchol ar gyfer y bobl hynny, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, sy'n methu amddiffyn eu hunain drwy wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.
- 1.55 Mae gennym ystod o reolau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebiadau yn gweithio i bawb, gan gynnwys y bobl fwyaf bregus. Er enghraifft, rydym yn mynnu bod tariffiau cymdeithasol ar gael i rai pobl sydd ar incwm isel. Rydym hefyd wedi gosod rheolau i sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebiadau yn hygyrch i ddefnyddwyr sy'n ddall neu'n fyddar, a'r rheini sydd angen biliau mewn fformat gwahanol o bosib, fel braille.
- 1.56 Wrth symud ymlaen, bydd angen i ni sicrhau bod y mesurau amddiffyn presennol yn cael eu diweddarau er mwyn ystyried newidiadau o ran technoleg a defnydd. Yn benodol, bydd angen i ni ystyried sut gallai'r mesurau amddiffyn hynny sy'n berthnasol i wasanaethau ffôn traddodiadol ar hyn o bryd – fel y gofyniad i ddarparu tariff cymdeithasol a threfniadau i ddelio'n sensitif â dyled – fod yn berthnasol i fand eang a gwasanaethau symudol yn y dyfodol.
- 1.57 Mae pethau'n gallu mynd o'i le i ddefnyddwyr mewn marchnadoedd sy'n gweithio'n effeithiol hyd yn oed. Mae hynny'n gallu deillio o fethiannau gwasanaeth neu wasanaeth gwael i gwsmeriaid. Neu efallai nad yw darparwyr yn cyflawni eu rhwymedigaethau. Yn yr achosion gwaethaf, mae hynny'n gallu digwydd yn sgil twyll troseddwr.
- 1.58 Bydd Ofcom yn parhau â'i waith i ddod o hyd i'r hyn sy'n achosi niwed ac i fynd i'r afael â hynny. Un enghraifft benodol yw galwadau niwsans: mae'r rhain yn achosi dicter a phryder gwirioneddol i ddefnyddwyr mewn rhai achosion. Yn yr achosion gwaethaf, gall galwadau arwain at dwyll difrifol.
- 1.59 Mae gweithredu yn y maes hwn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, ac rydym yn bwriadu mynd ymhellach. Rydym yn ymgynghori ar bolisi gorfodi diwygiedig. Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu yn erbyn y rheini sy'n gwneud y galwadau mud mwyaf niweidiol. Rydym wedi cynnig canllawiau cosbi newydd sy'n golygu bod modd rhoi cosbau llawer mwy i gwmnïau sy'n cael eu canfod yn euog.
- 1.60 Rydym hefyd yn gweithio gydag eraill i fynd i'r afael â'r broblem hon. Rydym wedi llofnodi 'memorandwm cyd-ddealltwriaeth' newydd gyda chwmnïau telegyfathrebiadau i fonitro ac i rwystro galwadau niwsans ar eu rhwydweithiau.¹² Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol ar safonau a chamau gorfodi cryfach a fydd yn galluogi'r cyhoedd i adnabod galwyr.

¹² [Galwadau Niwsans \(Mesurau Technegol\): Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth](#).

Symleiddio prosesau rheoleiddio a chael gwared ar rai diangen

- 1.61 Un o egwyddorion craidd Ofcom yw nad ydym yn ymyrryd oni bai fod hynny'n angenrheidiol. Nid ydym yn credu bod rheoleiddio yn nod yn ei iawn ei hun; yn hytrach, mae'n adnodd angenrheidiol i sicrhau buddiannau i bobl ac i fusnesau pan nad yw marchnadoedd yn gallu gwneud hynny ar eu pen eu hunain.
- 1.62 Ers 2005 mae Ofcom wedi ceisio dadreoleiddio lle bynnag y gallwn ddibynnu ar gystadleuaeth i sicrhau'r gorau i ddefnyddwyr, neu lle mae rhai ymyriadau wedi dyddio bellach oherwydd newidiadau o ran technoleg neu strwythur y farchnad.
- 1.63 Er enghraifft, yn ein hymgyngoriad ar yr *Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes* yn 2015, sy'n edrych ar gysylltiadau busnes pwrpasol, am y tro cyntaf rydym wedi cynnig dadreoleiddio canol Llundain yn llwyr lle mae digon o gystadleuaeth yn bodoli.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn gweld cyfleoedd posib eraill i ddadreoleiddio

- 1.64 Yn llygaid defnyddwyr, mae rhwydweithiau sefydlog a symudol yn dod yn fwy a mwy cyfnewidiadwy ar gyfer gwasanaethau galwadau a negeseuon. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn cael eu darparu fwy a mwy dros y rhyngwyd, gan ddarparwyr fel Skype a WhatsApp, yn hytrach na drwy rwydweithiau ffôn traddodiadol.
- 1.65 Yn yr Adolygiad o'r Farchnad Band Cul sydd ar y gweill gennym (sy'n edrych ar gystadleuaeth yn y farchnad llinellau ffôn sefydlog) byddwn yn ystyried i ba raddau y gallwn ddadreoleiddio llinellau ffôn sefydlog traddodiadol – gan gynnal mesurau amddiffyn pwysig ar gyfer defnyddwyr bregus a phobl sy'n dibynnu ar eu llinell ffôn draddodiadol.
- 1.66 Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi amlinellu ffocws strategol newydd ar gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau annibynnol. Yn y rhannau hynny o'r wlad lle mae cyfle go iawn i gael cystadleuaeth effeithiol, byddwn yn ceisio cael gwared ar reoleiddio diangen.
- 1.67 Mae ein ffocws ar sicrhau'r lefel reoleiddio briodol wedi ein harwain i gynnal adolygiad o'r Amodau Cyffredinol, sef y rheolau y mae'n rhaid i bob cwmni telegyfathrebiadau eu dilyn er mwyn gweithredu yn y DU. Bydd ein hadolygiad yn ceisio gwneud y rheolau'n gliriach, lleihau cost cydymffurfio a chael gwared ar unrhyw reolau diangen.

Y camau nesaf

- 1.68 Bydd llawer o'r cynigion hyn yn cael eu cyflawni drwy ein proses arferol o adolygu marchnadoedd telegyfathrebiadau unigol yn rheolaidd, fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol arfaethedig ar gyfer 2016/17¹³. Yn benodol, byddwn yn ymgynghori ar y broses fanwl o'u rhoi ar waith drwy:
 - ein hadolygiad o faterion yn ymwneud ag ansawdd a chystadleuaeth o ran cysylltiadau band eang i gartrefi a busnesau – Adolygu'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol;
 - ein hadolygiad o faterion cystadleuaeth mewn gwasanaethau telegyfathrebiadau traddodiadol, gan gynnwys teleffoni llais – ein Hadolygiad o'r Farchnad Band Cul;

¹³ Ofcom, [Cynllun Blynyddol Arfaethedig 2016/17](#), t.7.

- ein hadolygiad o'r farchnad fach lle nad yw dadfwn delu dolenni lleol o ran ceblau copr BT yn ymarferol yn economaidd ac nad yw band eang cyflym iawn ar gael eto – Adolygu'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol; ac
- ein hadolygiad o linellau busnes pwrpasol – Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes.

1.69 Pan nad yw ein cynigion yn dod o dan adolygiad marchnad penodol, byddwn yn mynd ati i'w rhoi ar waith drwy gyfres o brosiectau pwrpasol, a nodir isod.

Sicrhau darpariaeth i bawb

- i) O ran rhwydweithiau sefydlog, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i roi'r hawl gyffredinol newydd i gael band eang ar waith.
- ii) Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth am ddarpariaeth sy'n drylwyr, yn hygyrch, yn gywir ac y gellir ei chymharu hefyd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn ein hadroddiad *Cysylltu'r Gwledydd* a gyhoeddwyd yn 2015 – ac adroddiadau sydd ddim yn benodol i wledydd – tua diwedd 2016.
- iii) Byddwn yn defnyddio'r pwerau sydd gennym i fynnu bod gweithredwyr yn gwella darpariaeth symudol. Er enghraifft, drwy gynnwys amodau trwydded ar boblogaeth a'r ddarpariaeth ddaearyddol ar gyfer rhyddhau sbectrwem yn y dyfodol.

Newid strategol er mwyn gallu cyflwyno rhwydweithiau ffeibr ar raddfa fawr

- iv) Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio gyda BT a'r diwydiant i sicrhau bod cystadleuwyr yn gallu cael mynediad rhwydd a chyflym at seilwaith polion a phibellau tanddaearol BT. Byddwn yn rhoi newidiadau ar waith drwy'r Gyfarwyddeb Seilwaith Sifil, ar yr amod y bydd y Gyfarwyddeb yn cael ei thrawsod yn neddfwriaeth y DU, sydd ar y gweill ar gyfer haf 2016. Byddwn hefyd yn gwneud cynigion penodol eleni yn yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol.
- v) I gefnogi buddsoddiad, byddwn yn cyflwyno polisiâu prisio a mynediad rheoledig er mwyn cefnogi buddsoddiadau mewn rhwydweithiau mynediad drwy'r Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol.

Newid sylweddol mewn ansawdd gwasanaethau

- vi) Rydym yn bwriadu gosod safonau sylfaenol llym ar gyfer Openreach gan ddefnyddio dulliau gorfodi pendant a rhoi dirwyon am dangyflawni yn y farchnad fusnes drwy ein hadolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes ym mis Ebrill 2016.
- vii) Byddwn yn cyhoeddi'r 'Adroddiad ar Ansawdd Gwasanaethau' blynyddol cyntaf ddechrau 2017.
- viii) Byddwn yn ymgynghori drwy'r Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol ar wella ac ehangu'r safonau sylfaenol ar gyfer Openreach.
- ix) Wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn ceisio cyflwyno rheolau i gymell Openreach i fynd ymhellach na'r safonau sylfaenol ac i sicrhau gwasanaethau gwell eleni.

- x) Byddwn yn sefydlu gweithgor gyda'r diwydiant i gydlynu ansawdd gwasanaethau ar draws ffiniau sefydliadol.
- xi) Byddwn yn ymgynghori ar gyflwyno iawndal awtomatig i ddefnyddwyr a busnesau bach.

Cryfhau annibyniaeth Openreach

- xii) Ar hyn o bryd rydym yn llunio cynigion manwl i sicrhau mwy o annibyniaeth a rheolaeth i Openreach, a byddwn yn eu trafod â'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach eleni.

Grymuso defnyddwyr

- xiii) Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a thrydydd partïon, fel gwefannau cymharu prisiau, i wella lefel y wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr.
- xiv) Eleni byddwn yn ystyried mynnu bod darparwyr yn cyhoeddi dull safonol o gymharu prisiau, fel dull o fesur cost fisol gyfartalog elfennau craidd gwasanaeth dros gyfnod y contract, ochr yn ochr â'r tariffiau.
- xv) Yn ystod hanner cyntaf 2016 byddwn yn ymgynghori ar newid darparwr symudol. Byddwn hefyd yn cwblhau ein hadolygiad o newid bwndel tri gwasanaeth (h.y. llinell ffôn, teledu a band eang).

Dadroleiddio

- xvi) Byddwn yn ymgynghori ar gynigion i symleiddio a diweddarau'r Amodau Cyffredinol erbyn yr haf, a bydd y cynigion terfynol wedi'u cwblhau erbyn gwanwyn 2017.
- xvii) Y tu hwnt i hynny, byddwn yn ystyried y cyfle i ddadroleiddio ym mhob un o'n hadolygiadau marchnad.